

Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg

1 Hydref 2019

1.1 Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ofynnol i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg HCPC.

1. Cefndir

2.1 Cychwynnon ni ein Cynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun) yn 2011. Ers hynny rydym wedi cwblhau saith adroddiad gweithredu ar y Cynllun i sylw Comisiynydd yr Iaith Gymraeg.

2.1 Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae ein cynllun yn amlinellu sut y gweithredwn yr egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

2.2 Yn ystod 2018–19, rydym wedi parhau i weithredu darpariaethau ein Cynllun. Roedd hyn yn cynnwys:

- Ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg wrth ailddatblygu ein gwefan;
- Cyhoeddi hysbysebion dwyieithog yng Nghymru am unrhyw swyddi gwag ar ein Cyngor; a
- Chodi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr o'n rhwymedigaethau o dan y Cynllun trwy ymgysylltu mewnol.

Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg	Ymateb HCPC (mae'r holl ffigurau yn perthyn i'r cyfnod Ebrill 2018 – Mawrth 2019)
<p>Asesiad effaith polisi</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Nifer a chanran y polisïau (yn cynnwys y rheiny a adolygwyd neu a ddiwygiwyd) lle rhoddwyd ystyriaeth i'r effeithiau y byddai'r polisi wedi cael ar ddefnydd yr iaith Gymraeg. ○ Enghraifft o asesiad y tybir iddo gael effaith ar ddefnydd yr iaith Gymraeg a manylion o sut y cafodd y polisi ei ddiwygio o ganlyniad. 	<p>Mae holl ddatblygiad polisi yn ystyried goblygiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth fel y bo'n briodol. Nid oes proses benodol ac ychwanegol ar gyfer asesu sut y bydd polisi yn cael effaith ar ddefnydd yr iaith Gymraeg y tu hwnt i asesiad cydraddoldeb ac amrywiaeth ehangach.</p> <p>Rydym wedi ymgymryd yn ddiweddar ag adolygiad o'n hasesiadau effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fel rhan o'r adolygiad hwn, rydym wedi cyflwyno adran ar ein Cynllun Iaith Gymraeg. Mae hyn yn cymhell gweithwyr i ystyried sut mae'r prosiect yn gweithredu ein hymrwymiaidau o dan y Cynllun.</p> <p>Ar ddiwedd y cyfnod adolygu, roedd gweithredu'r gwaith hwn yn dal yn y camau cynnar. Felly nid oedd gennym y data ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Rhagwelwn y bydd yr asesiadau effaith hyn wedi eu sefydlu'n well ledled y sefydliad ar adeg ein hadroddiad blynyddol nesaf, pan fyddwn yn gallu darparu'r data hyn.</p> <p>N/A – Nid oes unrhyw bolisïau wedi cael eu hadnabod sy'n gofyn am welliant ar y seiliau hyn.</p>
<p>Cyhoeddiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Nifer o gyhoeddiadau ar gael i'r cyhoedd ○ Nifer o gyhoeddiadau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg 	<p>Cyfanswm o 127; 4 newydd eleni a 3 wedi eu diwygio eleni</p> <p>Cyfanswm o 12; 1 newydd eleni</p> <p>Mae hyn yn ostyngiad yn nifer y cyhoeddiadau Cymraeg ar gael yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn oherwydd, yn dilyn yr adolygiad gwefan, daethom ar draws cynnwys wedi dyddio roedd yn rhaid ei ddileu. Fodd bynnag, er gwaethaf llai o gyhoeddiadau, rydym wedi cynyddu ein</p>

	<p>cynnwys gwefan Cymraeg yn ehangach. Byddwn yn parhau i ehangu ar hyn yn y dyfodol. Mae hyn yn gyfochrog â'n symudiad at agwedd 'digidol yn gyntaf', lle rydym yn blaenoriaethu datblygu cynnwys ar-lein yn hytrach nac mewn cyhoeddiadau print.</p> <p>Tra bod ein holl gyhoeddiadau ar gael i'r cyhoedd, nid yw pob un ohonynt yn cyfeirio at weithredu ein busnes cyhoeddus neu'n rhai sydd â'r cyhoedd yn gyffredinol yn brif gynulleidfa darged. Rydym yn cyhoeddi'n ddwyieithog, lle mae lefel y diddordeb cyhoeddus posibl yn gofyn am hynny.</p>
<p>Cwynion</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Nifer yr holl gwynion a dderbyniwyd ynglŷn ag ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru ○ Nifer o gwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg ynglŷn ag ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru ○ Nifer o gwynion a dderbyniwyd yn mewn perthynas â chydymffurfiaeth y Cyngor â'i gynllun iaith Gymraeg 	<p>18 cwyn Addaswydd i Ymarfer ynglŷn â swyddogion cofrestredig sy'n byw yng Nghymru</p> <p>Cyfanswm o 46 cwyn os ydych chi hefyd yn cynnwys pryderon Diogelu teitl, datganiadau lechyd a Chymeriad a chwynion amrywiol (fel y rheiny lle nad ydym yn gallu adnabod swyddog cofrestredig).</p> <p>0</p> <p>0</p>

<p>Gwefan</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Canran o wefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg ○ ○ Tystiolaeth mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau i wella neu gynyddu'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ar ein gwefan ○ Tystiolaeth mewn perthynas â'r broses a ddefnyddir i sicrhau bod cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd, yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith Gymraeg (os yw'r broses yn wahanol i'r hyn a adroddwyd yn 2017-18) 	<p>7.8% (heb gynnwys cynnwys deinamig, e.e. gwrandawladau, newyddion, digwyddiadau, adnoddau neu ddogfennau).</p> <p>Llynedd, cwblhaon ni brosiect mawr i adeiladu gwasanaethau gwefan newydd. Un o amcanion lefel uchel y prosiect oedd sicrhau bod y wefan newydd yn ateb gofynion ein Cynllun. Mae hyn wedi arwain atom yn cynyddu ein galluoedd yn sylweddol i ddarparu cynnwys yn Gymraeg, a rhoi'r gallu i ni ddatblygu mwy o gynnwys yn Gymraeg yn y dyfodol yn ôl y gofyn.</p> <p>Rydym yn adolygu a diweddarau ein tudalennau Cymraeg yn rheolaidd i sicrhau bod y cynnwys yn gyfoes, yn gywir ac yn cydymffurfio â gofynion ein Cynllun. Cafodd ein holl dudalennau Cymraeg eu hadolygu fel rhan o'r prosiect gwefan newydd yn 2018.</p> <p>Mae'r wefan newydd hefyd yn darparu'r gallu i'n cynnwys fod yn amlieithog, gan ein galluogi i ddatblygu cynnwys Cymraeg newydd yn yr un fformat ag y byddem gyda chynnwys Saesneg. Mae hyn yn golygu y gallwn barhau i ddatblygu ein cynnwys Cymraeg yn unol â'r ymrwymadau yn ein Cynllun.</p>
--	---

<p>Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Gwybodaeth ynglŷn a dulliau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol yn nefnydd y cyhoedd o'r gwasanaethau. ○ Gwybodaeth ynglŷn â dulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (e.e. wrth asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth presennol/darpar ddefnyddwyr) 	<p>O dan ein Cynllun, rydym yn rhoi rhybudd o ddigwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog, yn cyfieithu adnoddau print, yn cynnig cyfieithu ar y pryd a gwneud addasiadau eraill wrth ddarparu digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn darparu cyfieithiadau o gyhoeddiadau ar gais ac yn hysbysebu hyn mewn cyhoeddiadau ac ar ein gwefan. Mae holl lofnodion e-bost gweithwyr yn cynnwys 'Correspondence is welcome in English or Welsh / Gallwch ohebu yn Gymraeg neu Saesneg.' Rydym wedi hwyluso ceisiadau am gyfieithiadau o benderfyniadau gwrandawriadau FTP i Gymraeg.</p> <p>Mae ein hasesiad o ddefnydd y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau yn dangos bod galw yn isel iawn.</p>
<p>Achosion addaswydd i ymarfer</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Nifer o wrandawriadau a gynhaliwyd yng Nghymru ○ Nifer o wrandawriadau lle gwnaeth tyst gais i siarad Cymraeg ○ Nifer o wrandawriadau lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg 	<p>55</p> <p>0</p> <p>0</p>

<p>Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Nifer a chanran o staff newydd y sefydliad (hynny yw, newydd ers 1 Ebrill 2018) a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg. ○ Nifer a chanran gweithlu cyfan y sefydliad sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ers i'r hyfforddiant gael ei gyflwyno. 	<p>61 (100%) – Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg yn amod o'n rhestr wirio cyflwyno dechreuwr newydd. Bydd pob gweithiwr newydd yn derbyn gwybodaeth am ein Cynllun a'i ofynion gan eu rheolwr yn ystod eu pythefnos gyntaf yn eu swydd.</p> <p>264 (100%) – Fel uchod. Yn ychwanegol, mae'r holl staff presennol yn cael eu cadw'n ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â gofynion iaith Gymraeg HCPC trwy gyfathrebiadau mewnol, gan gynnwys erthyglau mewnurwyd a chyflwyno yn holl gyfarfodydd gweithwyr.</p>
<p>Hunanreoleiddio</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Manylion y trefniadau a gweithdrefnau mae'r sefydliad wedi eu mabwysiadu i'w alluogi i hunanreoleiddio yn effeithiol. 	<p>Mae'r HCPC yn ymrwymedig i gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn eu dewis iaith.</p> <p>Rydym yn monitro cydymffurfiaeth â'n Cynllun iaith Gymraeg yn barhaus, boed hynny trwy gyfathrebiadau mewnol neu trwy adolygiadau o'r cynnwys rydym yn ei ddarparu ar-lein ynglŷn â'r Cynllun. Mae'r Cynllun hefyd yn cael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'n prosesau Llywodraethiant, lle mae diweddariadau yn cael eu rhannu gyda'n Timau Gweithredol ac Uwch Reoli a'n Cyngor.</p> <p>Mae'r tîm Polisi a Safonau hefyd yn cyfarfod â chynrychiolwyr o adrannau, i fonitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun.</p> <p>Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd newydd o hunanreoleiddio, wrth baratoi i weithredu Safonau'r Gymraeg newydd.</p>